


NFTS CYMRU WALES

# Hysbysiad Preifatrwydd Cyfranogwyr

## 1. Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut mae NFTS Cymru Wales, canolfan yr Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol yng Nghaerdydd ("ni", "ein", "yr ysgol") yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu eich data personol, a'ch hawliau mewn perthynas â'r data personol sydd gennym. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymwneud â phrosesu data personol cyfranogwyr y gorffennol, y presennol a darpar gyfranogwyr mewn hyfforddiant a digwyddiadau a drefnir gan yr Ysgol ("chi", "eich").

Yr Ysgol yw rheolwr data eich data personol ac mae'n ddarostyngedig i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ("GDPR").

## 2. Beth yw 'data personol'?

Mae 'data' personol' yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chi neu'n eich adnabod chi fel unigolyn.

## 3. Sut rydyn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol?

Gallwn gasglu eich data personol mewn sawl ffordd, er enghraifft:

(a) o'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni pan fyddwch yn rhyngweithio â ni cyn ymuno, er enghraifft pan fyddwch yn mynegi eich diddordeb mewn ymgymryd ag hyfforddiant yn yr Ysgol;

(b) pan fyddwch yn gwneud cais am gwrs a drefnir gan yr Ysgol ac yn cwblhau ffurflenni cais a phan fyddwch yn cwblhau prosesau a gweithdrefnau derbyn eraill;

(c) pan fyddwch yn cyfathrebu â ni dros y ffôn, e-bost neu drwy ein gwefan, er enghraifft, i wneud ymholiadau neu godi pryderon;

(d) mewn sawl ffordd arall wrth i chi ryngweithio â ni yn ystod eich amser fel cyfranogwr hyfforddiant neu ddigwyddiad a drefnir gan yr Ysgol, at y dibenion amrywiol a nodir isod;

(e) gan drydydd partïon, er enghraifft, wrth eich hen brifysgol neu brifysgol gyfredol neu gyflogwyr a all roi geirda amdanoch neu a all noddi eich astudiaethau.

## 4. Pa fathau o wybodaeth a gasglwn?

Gallwn gasglu'r mathau canlynol o ddata personol amdanoch chi:

(a) eich enw a gwybodaeth gyswllt fel cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, yn ogystal â'ch dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol (neu rif adnabod treth arall) a'ch rhif pasbort neu fanylion eich cerdyn adnabod cenedlaethol, gwlad domisil a'ch cenedligrwydd. Ar gyfer cyrsiau penodol, efallai y byddwn yn clustnodi rhif myfyriwr unigryw i chi;

(b) (lle bo'n berthnasol ar gyfer cyrsiau tymor hwy) gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch addysg a'ch hanes cyflogaeth, yr ysgol(ion), coleg(au) chweched dosbarth a cholegau neu brifysgolion eraill rydych wedi'u mynychu a llefydd lle rydych wedi gweithio, y cyrsiau rydych wedi'u cwblhau, dyddiadau astudio a chanlyniadau arholiadau. Byddwn hefyd yn cadw cofnodion yn ymwneud ag asesiadau o'ch gwaith, manylion yr arholiadau a gymerwyd, graddau eich arholiadau a'r graddau a ragwelir a mathau eraill o wybodaeth yn eich cofnod myfyriwr;

(c) gwybodaeth am eich teulu neu amgylchiadau personol, a diddordebau academaidd ac allgyrsiol, er enghraifft, lle bo'n berthnasol i'r asesiad o'ch addasrwydd i dderbyn bwrsariaeth neu i ddarparu gofal bugeiliol priodol i chi;

(d) data personol sensitif a gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau, gan gynnwys:

   (i) gwybodaeth am eich iechyd a chyflyrau iechyd (e.e. unrhyw anableddau a allai fod gennych);

   (ii) euogfarnau troseddol penodedig; a

   (iii) gwybodaeth am eich tarddiad hiliol neu ethnig; crefydd neu gredoau tebyg; a chyfeiriadedd rhywiol.

## 5. Sut rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth am ein cyfranogwyr?

Mae'r dibenion y gallwn ddefnyddio data personol ar eu cyfer (gan gynnwys data personol sensitif rydych wedi dewis ei roi i ni) yn ystod cyswllt cyfranogwr â ni yn cynnwys:

(a) recriwtio a derbyniadau;

(b) materion academaidd, gan gynnwys:

(i) darparu ein gwasanaethau addysgu a dysgu craidd (e.e. cofrestru, asesu, presenoldeb, rheoli cynnydd, gwerthuso cyrsiau, monitro amrywiaeth, ardystio);

(ii) cynnal cofnodion cyfranogwyr;

(iii) asesu eich cymhwystra am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau, etc.

(c) materion anacademaidd i gefnogi ein gwasanaethau craidd, gan gynnwys digwyddiadau, dosbarthiadau meistr a gweithdai rhagflas;

(d) monitro cyfle cyfartal;

(e) adrodd i Lywodraeth Cymru, sy'n darparu ein cronfa fwrsariaeth, am geisiadau bwrsariaeth a wnaed a chyfraniadau a roddwyd;

(f) diogelu a hyrwyddo llesiant cyfranogwyr;

(g) sicrhau diogelwch cyfranogwyr;

(h) rheoli'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol;

(i) rheoli parcio a mynediad at y rhyngrwyd yn ein safleoedd hyfforddi;

(j) gweinyddu ariannol (e.e. ffioedd, ysgoloriaethau a bwrsariaethau);

(k) dibenion gweinyddol eraill, gan gynnwys:

i. cynnal ymchwil a dadansoddi ystadegol;

(l) ii. Cynnal archwiliadau (e.e. i sicrhau cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau rheoliadol a chyfreithiol);

(m) iii. darparu gwybodaeth weithredol (e.e. darparu cymorth TG, gwybodaeth am gau adeiladau neu gyfyngiadau mynediad ar y safle, neu gyngor diogelwch);

(n) iv. hyrwyddo ein gwasanaethau (e.e. darparu gwybodaeth ynglŷn â lleoliadau, neu ddigwyddiadau sy'n digwydd ar y safle ac oddi arno);

(o) atal a chanfod troseddau;

(p) delio ag anghydfod a chamau disgyblu;

(q) delio â chwynion ac ymholiadau.

## 6. Beth yw pwrpas a sail gyfreithiol prosesu eich gwybodaeth a sut rydyn ni'n ei defnyddio?

Efallai y byddwn yn prosesu eich data personol oherwydd ei fod yn angenrheidiol i gyflawni contract gyda chi neu er mwyn cymryd camau, ar eich

cais, cyn ymrwymo i gontract. Yn hynny o beth, rydyn ni'n defnyddio eich data personol ar gyfer y canlynol:

(a) i ryngweithio â chi cyn i chi gofrestru fel cyfranogwr mewn hyfforddiant, fel rhan o'r broses dderbyn (e.e. i anfon amlinelliad o'r cwrs atoch neu ateb ymholiadau ynglŷn â'n cyrsiau);

(b) ar ôl i chi gofrestru, i ddarparu'r gwasanaethau i chi fel y nodir yn ein Telerau ac Amodau;

(c) delio ag unrhyw bryderon neu adborth sydd gennych;

(d) ar gyfer unrhyw bwrpas arall lle rydych yn rhoi eich data personol i ni.

Efallai y byddwn hefyd yn prosesu eich data personol oherwydd ei fod yn angenrheidiol i gyflawni ein tasgau a wneir er budd y cyhoedd (fel y nodir yn ein dogfennau cyfansoddiadol, sydd ar gael yma:

https://nfts.co.uk/sites/default/files/u102/Documents/Governance/Articles%20of%20Association%202013.pdf )

neu oherwydd ei fod yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon ni neu fuddiannau trydydd parti. Yn hynny o beth, gallwn ddefnyddio eich data personol ar gyfer y canlynol:

(a) darparu gwasanaethau addysgol i chi na chânt eu nodi yn ein Telerau ac Amodau ond sydd, serch hynny, yn rhan o'n cenhadaeth academaidd ac addysgol;

(b) monitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd yr Ysgol, gan gynnwys hyfforddiant ein staff neu fonitro eu perfformiad;

(c) cynnal a gwella rheolaeth academaidd, corfforaethol, ariannol, ystâd ac adnoddau dynol yr Ysgol;

(d) hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws yr Ysgol;

(e) cael cyngor ar ein hawliau a'n rhwymedigaethau, fel pan fydd angen ein cyngor cyfreithiol ein hunain arnom;

(f) adennill arian sy'n ddyledus i ni.

Gallwn hefyd brosesu eich data personol at ddibenion ein cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Yn hynny o beth, gallwn ddefnyddio eich data personol ar gyfer y canlynol:

(a) i fodloni ein rhwymedigaethau cydymffurfio a rheoliadol, fel cydymffurfio â deddfau gwrth-wyngalchu arian a gofynion diogelu;

(b) i atal a chanfod troseddau;

(c) i gynorthwyo gydag ymchwiliadau (gan gynnwys ymchwiliadau troseddol) sy'n cael eu cynnal gan yr heddlu ac awdurdodau cymwys eraill.

Gallwn brosesu eich data personol hefyd pan:

(d) mae'n angenrheidiol amddiffyn eich buddiannau hanfodol chi neu berson arall; neu

(e) mae gennym eich caniatâd neilltuol neu, lle bo angen, cydsyniad penodol i wneud hynny.

## 7. Gyda phwy y bydd fy ngwybodaeth yn cael ei rhannu?

At y dibenion y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn a chan ddibynnu ar y seiliau ar gyfer prosesu fel y nodir uchod, efallai y byddwn yn rhannu eich data personol gyda thrydydd partïon penodol. Rhoddir cyfle i chi optio allan o rai o'r trefniadau rhannu data hyn, er enghraifft pan fyddwch yn cofrestru gyda ni, ond dylech ystyried yn ofalus yr effaith bosib o wneud hyn. Oni bai bod optio allan ar waith, gallwn ddatgelu data personol perthnasol cyfyngedig i amrywiaeth o dderbynwyr gan gynnwys:

(a) ein gweithwyr, asiantau a chontractwyr lle bo rheswm dilys iddyn nhw dderbyn y wybodaeth, gan gynnwys:

(b) trydydd partïon sydd â chontract i ddarparu gwasanaethau TG a chyflogres i ni;

(c) archwilwyr mewnol ac allanol;

(d) y rheini sydd â diddordeb mewn olrhain cynnydd a phresenoldeb myfyrwyr, gan gynnwys:

(e) cyflogwyr presennol neu ddarpar gyflogwyr (i ddarparu geirda a, lle bo cyfranogwyr yn cael eu noddi gan eu cyflogwr, i ddarparu manylion cynnydd/presenoldeb);

(f) asiantaethau atal neu ganfod troseddau (e.e. yr heddlu, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Safonau Masnach);

(g) rhieni, gwarcheidwaid a pherthnasau agosaf (lle bo rheswm dilys dros ddatgelu);

## 8. A fydd fy ngwybodaeth yn cael ei rhannu y tu allan i’r UE?

Bydd rhywfaint o’r data personol rydyn ni’n ei brosesu amdanoch yn cael ei drosglwyddo a’i storio i leoliad y tu allan i’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, er enghraifft lle caiff ei brosesu gan staff sy'n gweithredu y tu allan i'r AEE sy'n gweithio i ni neu i un o'n cyflenwyr, neu lle mae data personol yn cael ei brosesu gan un o'n cyflenwyr sydd wedi'i leoli y tu allan i'r AEE neu sy'n defnyddio cyfleusterau storio y tu allan i'r AEE.

O dan yr amgylchiadau hynny, dim ond ar un o'r seiliau canlynol y bydd yn eich data personol yn cael ei drosglwyddo:

(a) lle bo’r trosglwyddiad yn amodol ar un neu fwy o "fesurau diogelwch priodol” ar gyfer trosglwyddiadau rhyngwladol a ragnodir gan y gyfraith

berthnasol (e.e. cymalau diogelu data safonol a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd);

(b) penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd sy’n amodi bod y wlad neu'r diriogaeth y trosglwyddir iddi yn sicrhau lefel ddigonol o ddiogelwch; neu

(c) bod sefyllfa arall yn bodoli lle caniateir y trosglwyddiad o dan y gyfraith berthnasol (e.e. lle mae gennym eich caniatâd penodol).

## 9. Codi Arian a Chysylltiadau Cyn-Fyfyrwyr

Rydyn ni’n trosglwyddo mathau penodol o fanylion o’ch data personol i’n tîm Cyn-Fyfyrwyr a Digwyddiadau ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio o gyrsiau tystysgrif a diploma. Defnyddir y wybodaeth hon ar gyfer gweithgareddau cyn-fyfyrwyr, gan gynnwys anfon deunydd cyfathrebu yr Ysgol, hyrwyddo gwasanaethau i gyn-fyfyrwyr fel cyfleoedd gwaith, digwyddiadau a rhaglenni. Gellir defnyddio eich data personol hefyd ar gyfer rhaglenni codi arian. Efallai y byddwn hefyd yn datgelu data personol cyfyngedig i'n contractwyr i'w ddadansoddi mewn cysylltiad â gweithgareddau codi arian.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut defnyddir eich data personol gan y timau Cyn-Fyfyrwyr a Digwyddiadau, gweler y datganiad preifatrwydd codi arian a chysylltiadau cyn-fyfyrwyr yn: https://nfts.co.uk/privacy-policy

Os nad ydych eisiau i’ch data personol gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw un o’r dibenion hyn, e-bostiwch: wales@nfts.co.uk.

Efallai y byddwn am gysylltu â chi ar ôl cymryd rhan yn y cwrs i drafod effaith y cwrs ar ddatblygiad eich gyrfa, a hyrwyddo unrhyw lwyddiannau y gellir eu priodoli i ymgymryd â hyfforddiant gyda ni.

## 10. Sut alla i wneud newidiadau i’m data personol?

Dywedwch wrthym yn brydlon am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer eich manylion cyswllt. Gallwch wneud hyn drwy e-bostio: wales@nfts.co.uk.

## 11. Pa mor hir mae fy ngwybodaeth yn cael ei chadw?

Yn amodol ar unrhyw hysbysiad arall y gallwn ei ddarparu i chi, gallwn gadw eich data personol am gyfnod o 12 mis ar ôl i'ch cysylltiad â ni ddod i ben. Serch hynny, efallai y byddwn yn cadw rhywfaint o wybodaeth am gyfnod amhenodol er mwyn cadw cofnod ohonoch at ddibenion archifo (neu gan y tîm Cyn-Fyfyrwyr a Digwyddiadau at ddibenion cefnogi eich perthynas gydol oes gyda NFTS).

## 12. Beth yw fy hawliau o dan GDPR?

Mae gennych yr hawliau canlynol o dan GDPR:

(a) i gael mynediad, a chopïau, o’r data personol sydd gennym amdanoch;

(b) ei gwneud yn ofynnol i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol os yw’r prosesu yn achosi niwed neu drallod;

(c) ei gwneud yn ofynnol i ni beidio ag anfon deunydd marchnata atoch;

(d) ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro’r data personol sydd gennym amdanoch os yw’n anghywir;

(e) ei gwneud yn ofynnol i ni ddileu eich data personol;

(f) ei gwneud yn ofynnol i ni gyfyngu ar ein gweithgareddau prosesu data (a, lle bo’n prosesu yn seiliedig ar eich cydsyniad, gallwch dynnu’r cydsyniad hwnnw yn ôl, heb effeithio ar gyfreithlondeb ein prosesu sy’n seiliedig ar gydsyniad cyn ei dynnu’n ôl);

(g) i dderbyn wrthym y data personol sydd gennym amdanoch rydych chi wedi'i roi i ni, mewn fformat rhesymol a nodwyd gennych, gan gynnwys at y diben eich bod yn trosglwyddo'r data personol hwnnw i reolwr data arall;

(h) i wrthwynebu, ar seiliau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol, unrhyw un o'n gweithgareddau prosesu penodol lle rydych chi'n teimlo bod hyn yn cael effaith anghymesur ar eich hawliau.

Sylwer nad yw’r hawliau uchod yn absoliwt, ac efallai y bydd gennym hawl i wrthod ceisiadau lle mae eithriadau yn berthnasol.

Os ydych wedi rhoi eich cydsyniad a'ch bod am ei dynnu'n ôl, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data drwy ddefnyddio’r manylion cyswllt a nodir isod. Sylwer, pan fydd ein prosesu o'ch data personol yn dibynnu ar eich cydsyniad a lle rydych chi'n tynnu'r cydsyniad hwnnw yn ôl, efallai na fyddwn yn gallu darparu'r cyfan neu rai agweddau ar ein gwasanaethau i chi a/neu fe allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau hynny.

Gallwch weld mwy o wybodaeth ynglŷn â sut defnyddir eich gwybodaeth bersonol neu os ydych am arfer unrhyw un o'ch hawliau, edrychwch ar Bolisi Diogelu Data NFTS: https://nfts.co.uk/policies-and-regulations

## Gyda phwy y gallaf gysylltu?

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu sut rydyn ni’n prosesu eich data personol, gallwch gysylltu â’n Swyddog Diogelu Data:

- drwy e-bost: dataprotection@nfts.co.uk neu
- yn y post: Swyddog Diogelu Data, NFTS, Beaconsfield Studios, Station Road, Beaconsfield, Bucks HP9 1LG

I ofyn am fynediad i'r data personol sydd gennym amdanoch chi, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data:

- drwy e-bost: dataprotection@nfts.co.uk neu
- yn y post: Swyddog Diogelu Data, NFTS, Beaconsfield Studios, Station Road, Beaconsfield, Bucks HP9 1LG

Os nad ydych yn fodlon gyda'r ffordd rydyn yn prosesu eich data personol, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gallwch gael gwybod mwy am eich hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sydd ar gael yn: www.ico.org.uk.